

CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR
COFNODION Y CYFARFOD MISOL
27.11.2025 @ 7.00pm
LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN
PONTRHYDFENDIGAID

1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Elgan Williams, bawb i'r cyfarfod.

2. PRESENNOL

Y Cynghorydd Mel Briant;
Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies;
Y Cynghorydd Gareth Edwards;
Y Cynghorydd Alun Price Jones;
Y Cynghorydd Angharad Jones;
Y Cynghorydd Richard Jones;
Y Cynghorydd Gareth Owen;
Y Cynghorydd Elgan Williams a
Eleri Thomas (Clerc).

3. YMDDIHEURIADAU

Ymddiheurodd y Cynghorydd Ieuan Davies, y Cynghorydd Non Jones a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCyRH) John Evans am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. MATERION YR HEDDLU

Darparodd SCCH John Evans y wybodaeth ganlynol am faterion yr heddlu am y mis diwethaf:

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Aflonyddwch :0
Byrgleriaeth : 0
Difrod Troseddol : 0
Lladrad : 0
Ymosodiad Trais : 0
Twyll : 0

Amrywiol:

1)Derbyniwyd dau adroddiad diweddar, un a wnaed gan un o drigolion Tregaron ar yr 16/10/25 ac yn fwy diweddar un gan breswilydd ardal Llangeitho yn gyfystyr â Thwyll Tywysydd. Derbyniwyd sawl adroddiad o'r math hwn o dwyll ychydig amser yn ôl. Roedd amgylchiadau y ddau ddigwyddiad yn debyg gan fod y dioddefwr yn derbyn galwad diwahoddiad gan berson oedd yn portreadu ei hun fel Ditectif gwnstabl yr Heddlu Metropolitan; rhoddwyd rhif bathodyn a chyfeirnod a hysbyswyd y dioddefwr fod rhyw berson mewn digwyddiad wedi ceisio cael mynediad i'w cyfrif banc / tra yn y digwyddiad arall roedd person gwrywaidd wedi ceisio defnyddio cerdyn banc y dioddefwr i brynu nwyddau mewn siop Argos yn Llundain.

Yn y ddau achos fel cam diogelwch, cynghorwyd y dioddefwr i roi'r ffôn i lawr ac i ffonio 999 gan ddyfynnu'r cyfeirnod a manylion y swyddog. (Mae hon yn dacteg sgam gan nad yw'r twyllwyr yn rhoi'r ffôn i lawr ac mae'r llinell yn parhau i fod ar agor iddynt pan fydd y dioddefwr yn gwneud yr alwad 999)

Dilynodd dioddefwyr y ddau ddigwyddiad y cyfarwyddiadau hyn ac fe'u cyflwynwyd i'r swyddog hwnnw oedd wedyn wedi ceisio derbyn gwybodaeth am eu cyfrifon banc.

Yn ffodus, ni ddarparodd y naill ddioddefwr unrhyw fanylion banc ac nid oedd unrhyw golled ariannol wedi digwydd.

Darparwyd cyngor atal troseddau mewn perthynas â sgamiau o'r fath i'r dioddefwyr a Chamau gweithredu Atgyfeiriadau Twyll wedi'u cymryd.

.....

2) Cynhaliwyd yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol yn ystod y cyfnod

10/11/2025 - 16/11/2025

Yn ystod yr wythnos hon cynorthwyodd y Tîm Plismona Cymdogaethau ac Atal Troseddau gyda'r Hyrwyddo'r protocol Herbert.

Roedd Heddlu Dyfed Powys wedi partneru â'r elusen MedicAlert i gyflwyno protocol person coll newydd ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Roedd Protocol Herbert (a enwyd ar ôl George Herbert, cyn-filwr Rhyfel glaniadau Normandi, a oedd yn byw gyda Dementia) yn gynllun cenedlaethol i gynorthwyo adferiad diogel unigolion agored i niwed, yn enwedig y rhai sy'n byw gyda dementia, a allai fynd ar goll.

Mae'r Protocol yn gofyn i ofalwyr, aelodau o'r teulu a ffrindiau lenwi ffurflen ymlaen llaw sy'n cofnodi'r holl fanylion hanfodol, megis meddyginiaeth angenrheidiol, rhifau ffôn symudol, lleoedd a leolwyd yn flaenorol, ffotograff ac ati. Dylid cadw'r ffurflen mewn lle diogel lle gellir ei lleoli'n hawdd a'i rhannu'n gyflym gyda'r asiantaethau perthnasol pe bai eu hanwylyd yn cael ei adrodd fel un ar goll.

Roedd cyfleuster i gofrestru'r manylion hyn ar-lein a thaflenni gwybodaeth ynghlwm

3) CYNHALIWYD WYTHNOS YMWHYBYDDIAETH BUSNES MWY DIOGEL hefyd yn ystod yr wythnos oedd yn dechrau ar y 10 Tachwedd 2025.

Yn ystod yr wythnos hon, cymerodd Tîm Cymdogaeth Plismona ac Atal Troseddau ran mewn cynnal ymweliadau â'r allfeydd manwerthu hynny a oedd yn ddioddefwyr lladradau siop, lle darparwyd cyngor atal troseddu ynghyd â phosteri dwyn o siopau i'w harddangos ar y safle.

Roedd Dwyn o Siop bellach wedi'i fabwysiadu fel Blaenoriaeth Plismona Genedlaethol.

.....

5. DATGANIAD O FUDDIANT PERSONOL A RHAGFARNLLYD: Dim wedi'i ddatgan.

6. CADARNHAU COFNODION 16 Hydref 2025

CYNIGIWYD (Y Cynghorydd Gareth Owen); EILIWYD (Y Cynghorydd Elgan Williams) a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion 16 Hydref 2025 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

7. MATERION SY'N CODI

7.1 Cyfarfod Cyhoeddus parthed Pafiliwn Bont: Cylchredwyd cofnodion drafft (ynghlwm). Bydd rhai aelodau o Gyngor Cymuned Ystrad Fflur yn cwrdd â Phwyllgor Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen ar 1 Rhagfyr 2025 i drafod opsiynau ynglŷn â'i ddyfodol. Gallai'r Cyngor Cymuned gynorthwyo i ffurfio pwyllgor o'r newydd ond nid oedd yn barod i gymryd cyfrifoldeb am ei redeg. Gellid o bosibl

anfon gwahoddiadau at sefydliadau presennol yr ardal gyda'r bwriad o enwebu cynrychiolydd ar gyfer y pwyllgor newydd.

7.2 Cynllun Lle: Sesiwn Galw Heibio i'r Cyhoedd: Dydd Iau 4ydd Rhagfyr 2025 (12 hanner dydd – 7pm) Neuadd Pantyfedwen: <https://placemaking-ceredigion.wales/>

7.3 Ardal Chwarae Pantyfedwen

7.3.1 Derbyniwyd £1,612 drwy Grant Cyfalaf Darpariaeth Chwarae Ceredigion. Mae deg y cant yn cyfateb i'r cyllid sydd ei angen ar gyfer y prosiect. Ystyriwyd Ffens Burnell (4 panel) ar gyfer y Parc. *Cytunwyd i roi sylw i Grant y Loteri Genedlaethol.*

7.4 Lloches Fws Newydd Ffair Rhos
Cytunwyd oedi'r mater ynglŷn â'r lloches fws newydd.

7.5 Bin Graeanu: Heol y Bannau: Roedd y Cynghorydd Richard Jones wedi cyfathrebu â'r Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion. Cytunwyd prynu'r bin graean a'r halen; £326.90. Bydd angen talu cost yr halen/graeau ar yr achlysur cyntaf ac ar ôl hynny, bydd CS Ceredigion yn ail-lenwi heb osod ffi. Nid oedd lleoliad ar gyfer y bin wedi'i ganfod.

7.6 Bioamrywiaeth Adran 6: Gwaith ar y gweill. Roedd y Cynghorydd Mel Briant yn clustnodi sylw i'r mater.

7.7 Clymog Siapan ar Lan yr Afon
Cytunwyd adolygu'r sefyllfa ynglŷn â chlymog Siapan ar lan yr afon yn ystod Gwanwyn 2026.

7.8 Adleoli'r fainc o Gwm Lluet: cytunwyd adleoli i'r Parc. **Meinciau yng nghyffiniau'r Neuadd Pantyfedwen ac yn eiddo'r Cyngor Cymuned:** Roedd angen atgyweirio'r meinciau. Ystyriwyd darpariaeth grant.

7.9 Cerbyd wedi'i barcio ar y Glas: Ystyriwyd lleoliadau addas i adleoli'r cerbyd. Roedd y lifft yn dal ar y Glas.

7.10 Sul y Cofio: 9 Tachwedd 2025 wrth Gofeb Rhyfel Bont. Cynhaliwyd gwasanaeth priodol i gofio y rhai a syrthiodd mewn rhyfeloedd y gorffennol a'r rhai sy'n parhau i ddioddef oherwydd gwrthdaro milwrol. Roedd 80-90 o bobl wedi ymgynnull. Cytunwyd i anfon llythyrau diolch at: y Parchedig Aled Lewis, Mrs Neli Jones. Mr John Jones a Mr John Jenkins.

7.11 Gwobrau Caru Ceredigion 2025: Roedd Mrs Neli Jones wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Gymunedol. Cynhelir y Seremoni Wobrwyo ar ddydd Iau 11eg Rhagfyr 2025 ar hen Gampws Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan.

7.12 Parcio o flaen y Garej: llinellau melyn dwbl angen eu hamlygu. i hysbysu Cyngor Sir Ceredigion.

7.13 Clwb Pêl-droed y Bont: Diolchodd y Cynghorydd Richard Jones i'r gymuned am ei chefnogaeth i Glwb Pêl Droed y Bont yn ystod ei Ddigwyddiad Codi Arian blynyddol,

sef noson rasio elusenol lle gallai'r mynychwyr fetio ar rasys ceffylau rithiol i helpu i godi arian hanfodol ar gyfer rhedeg y clwb.

- 7.14 Meddygfa Llanilar** yn rhoi'r gorau i ddosbarthu presgripsiynau i Neuadd Pantyfedwen, Pontrhydfendigiad a phentrefi eraill yr ardal. Gallai hyn olygu dwy daith i'r claf. Cytunwyd anfon llythyr o wrthwynebiad i'r cynnig hwn, a fyddai'n cael effaith anffafriol ar yr henoed, yr anabl a'r rhai heb rwydwaith o gymorth.
- 7.15 Pwyllgorau: Neuadd Pantyfedwen:** Arddangosir Coeden Nadolig yn ardal Neuadd Pantyfedwen (Margaret). Bydd Siôn Corn yn ymweld â'r Pentref ar ddydd Mawrth 23ain Rhagfyr 2025.

8. GOHEBIAETH

- 8.1 Cyngor Sir Ceredigion: Fel rhan o adolygiad parhaus roedd y Cyngor Sir yn cysylltu â Chynghorau Trefi a Chymunedau i gadarnhau perchnogaeth cysgodfannu bysiau yn eu hardal.**
Roedd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur yn berchen ar y canlynol: x4:
Lleoliad
Ger Tafarn y Teifi Ffair Rhos
Ger Eglwys Dewi Sant, Heol y Teras, Pontrhydfendigiad
Ger Wellington House, Pontrhydfendigiad
Ger Heol y Bannau Pontrhydfendigiad.
i Hysbysu Cyngor Sir Ceredigion.
- 8.2 Poster, "Mae eich Senedd yn Newid"**
O fis Mai 2026 ymlaen, bydd newidiadau i'r Senedd
- O'r etholiad ar 7 Mai 2026, bydd gan y Senedd naw deg chwech o aelodau yn hytrach na chwe deg.
 - Bydd gan bawb sy'n 16+ un bleidlais nawr, gan ddewis plaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol.
 - Bydd gan Gymru un ar bymtheg o etholaethau. Bydd pob etholaeth yn ethol chwe aelod.
 - Rhaid i unrhyw un sy'n sefyll etholiad fyw yng Nghymru.
 - Etholiadau amlach: Bydd etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal bob 4 blynedd.
- 8.3 Llystyfiant ar brif bont y pentref:** Mynegodd un o drigolion y Pentref gonsynr parthed maint o llystyfiant dinistriol oedd wedi cymryd gafael ar y cymal rhwng y gerbyttfordd a phenwal y bont dros Afon Teifi ar y B4343 ym Mhontrhydfendigaidd. Roedd llai o llystyfiant yn effeithio ar rai o'r cymalau mortar calch ar y strwythur ar ochr y gerbyttfordd a thwf mwy sylweddol, eiddew yn bennaf, ar y waliau y tu mewn i ffiniau'r Llew Coch.
- Fel strwythur rhestredig Gradd II CADW, roedd yn bwysig ei gynnal a chadw. Ar wahân i'r materion hyn, mater mwy brys. oedd bod y llystyfiant oedd yn tyfu'n barhaus yn gorfodi cerddwyr i gerdded ymhellach allan i'r gerbyttfordd a oedd yn cyflwyno risg go iawn o anafiad gan draffig yn dod o gyfeiriad nad oedd modd ei weld gan y cerddwr nac yrrwr.

Gofynnwyd tybed a allai'r Cyngor Cymuned ofyn i'r Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion ddelio â'r mater hwn ar frys.

Yn y gorffennol, byddai Arolygydd Strwythurau Cyngor Sir Ceredigion yn adrodd ar faterion o'r fath yn ystod rhaglen o arolygiadau neu hyd yn oed Arolygydd Priffyrdd ar arolygiad arferol.

Roedd y mater wedi cael ei ddwyn i sylw Cyngor Sir Ceredigion yn flaenorol. Cytunwyd i'w hatgoffa o'r mater.

- 8.4 Gohebiaeth arall: Er gwybodaeth yn unig - roedd llawer o negeseuon e-bost wedi'u hanfon ymlaen at Gynghorwyr, rhwng cyfarfodydd, yn electronig.**

9. CYNLLUNIO

- 9.1 Cais Cynllunio:** A250870
Ymgeisydd: Natalie Williams
Lleoliad: Gilfach y Dwn Fach, Pontrhydfendigiad, SY25 6EL
Cynnig Arfaethedig: Codi estyniad unllawr, drws allanol newydd, a newidiadau mewnol.
Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim gwrthwynebiad.

10. CYLLID

TALIADAU

- 10.1 Dilwyn Benjamin:** Torri glaswellt dros fisoedd yr haf: £2,310, TAW £462
CYFANSWM £2,772
- 10.2 Cyflog y Clerc: Tachwedd 2025** £238.33; Treuliau: £63.58
- 10.3 Cyllidebwyd bod tua £5,500** yn cael ei gario ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2026-27 yn seiliedig ar wariant cyllidebol tan 31 Mawrth 2026. Nid oedd hyn yn cynnwys grant y Parc o £1,612.

- 11. Eitemau ar gyfer Facebook: Poster:** "Mae'r Senedd yn newid"

12. UNRHYW FUSNES ARALL

- 12.1 Roedd Mrs Nel Jones wedi mynegi pryder ynglŷn â chyflwr llwybr cerdded, y Lôn Fach, graean i'w clirio: i hysbysu Cyngor Sir Ceredigion.**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 15 Ionawr 2026 @7pm.

Llofnod/ Dyddiad -----